# Cyfarwyddyd ar gyfer arweinwyr

Addasiad o lyfryn “What is the self-review framework?” (Becta)

ESIS

# Canllawiau ar gyfer arweinyddion

## Cyflwyniad

Gall y fframwaith hunan-adolygu roi cymorth i chi i ganfod lefel aeddfedrwydd eich ysgol yn ei defnydd o TGCh. Mae'n cynnwys set o ddisgrifiadau sy'n eich galluogi i weld lle y gallwch wneud eich defnydd o TGCh yn fwy effeithiol. Mae'r arf ar-lein yn awgrymu ffyrdd i gyflawni hyn.

## Pam defnyddio'r fframwaith hunan-adolygu?

Mae'r defnydd o TGCh ar draws yr holl ysgol yn rhoi'r grym i'r staff i ledaenu eu hystod o ddulliau o weithio gyda disgyblion a'u galluogi i weithio tuag at drawsnewid eu dysgu.

Mae cynllunio strategaethol ar gyfer TGCh yn hanfodol i sicrhau fod buddsoddiad sylweddol yr ysgol mewn TGCh yn cyflawni effaith uchel ar ddysgu'r disgyblion a chodi safonau. Mae'r defnydd o'r fframwaith yn galluogi eich ysgol i weld:

- Ble'r ydych chi nawr
- Ble'r ydych chi eisiau mynd
- Sut i gyrraedd yno.

Mae'r fframwaith yn eich helpu i werthuso'r ysgol yn erbyn cyfres o ddatganiadau sy'n disgrifio set o safonau sydd wedi eu cytuno'n genedlaethol. Yn deillio o'r proffil a gynhyrchir gan eich ymatebion ynglŷn â'ch ysgol, gallwch flaenoriaethu ardaloedd i'w datblygu.

Mae'n hanfodol i ymglymu cynifer o'r staff a phosibl gyda'r fframwaith hunan-adolygu, gan ei fod yn eu galluogi i ennill dealltwriaeth gytûn o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda, pa ardaloedd y mae angen iddynt wella a sut i ganolbwyntio ar y rhain. Mae hefyd yn eich galluogi i elwa ar safbwynt ehangach ar y materion, a ble mae'n bosibl, i ymglymu'r disgyblion yn ogystal â rhanddeiliaid eraill megis rhieni a llywodraethwyr.

## Yr wyth elfen yn y fframwaith



Mae'r fframwaith wedi ei rannu i wyth elfen benodol, sydd gyda'i gilydd yn rhoi darlun cyflawn o ddatblygiadau TGCh yr ysgol.

1. **Arweinyddiaeth a rheolaeth**
2. **Cwricwlwm**
3. **Dysgu ac addysgu**
4. **Asesu**
5. **Datblygiad proffesiynol**
6. **Estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu**
7. **Adnoddau**
8. **Effaith ar ganlyniadau disgyblion**

Rhennir pob elfen i linynnau, sy'n isrannu ymhellach i wahanol agweddau.

## Y disgrifiadau

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar gyfres o ddisgrifiadau o wahanol lefelau o aeddfedrwydd yn y defnydd o TGCh mewn ysgolion.

Disgrifir pob agwedd o'r fframwaith ar bum lefel ac ar sail y rhain y byddwch yn cyfateb eich ysgol.

Er enghraifft, mae'r tabl isod yn dangos y pum disgrifiad lefel ar gyfer Elfen 5 (Datblygiad proffesiynol) Llinyn b (Gweithrediad) Agwedd 3 (rhannu arfer effeithiol).

| 5b-3 | Rhannu arfer effeithiol | | |
|---|---|---|---|
| | Lefel 5 | Bydd unrhyw rannu o ran arfer effeithiol rhwng unigolion ar y staff yn digwydd yn ad hoc. | |
| | Lefel 4 | Anogir staff i rannu arfer effeithiol o ran TGCh yn ystod cyfarfodydd staff ond mae'n gweithio'n unig ar lefel unigolion. | |
| | Lefel 3 | Mae datblygiad staff unigol yn cynnwys rhannu a derbyn arfer effeithiol yn ehangach yn yr ysgol. | |
| | Lefel 2 | Mae rhannu arfer effeithiol yn digwydd fel mater o drefn ar draws yr ysgol ac mae cyfnewid arfer ag ysgolion eraill yn rhan o'r cynllun. | |
| | Lefel 1 | Mae'r ysgol wedi datblygu ymagweddau blaengar at rannu arfer effeithiol yn yr ysgol a'r tu allan ac mae'n defnyddio'r dechnoleg i gyflawni hyn. | |

**Manteision defnyddio'r arf ar-lein**

Trwy gyfateb eich ysgol gyda'r disgrifiad lefel priodol, gallwch weld ble mae'r ysgol yn sefyll ar hyn o bryd yn ei haeddfedrwydd TGCh a chanfod neu ddynodi y camau nesaf i'ch tywys ar y daith tuag at effeithiolrwydd gynyddol mewn TGCh.

Trwy ddefnyddio'r fframwaith hunan-adolygu, gallwch:

- gynhyrchu proffil o lefel eich ysgol ym mhob un o'r elfennau
- feincnodi eich ysgol yn erbyn eraill ym mhob un o'r wyth elfen
- dderbyn rhestr o weithrediadau a awgrymir i'ch helpu i symud ymlaen.
- flaenoriaethu datblygiadau a dathlu llwyddiant.

**Y Marc TGCh – y safon cenedlaethol ar gyfer effeithiolrwydd TGCh**

Nodir y safon cenedlaethol ar gyfer effeithiolrwydd TGCh gan logo ict ym mhob agwedd ar yr arf ar-lein.

Os dymunwch, ar ôl i'r ysgol gyrraedd y lefel angenrheidiol ym mhob agwedd o'r fframwaith gallwch wneud cais i gael eich asesu ar gyfer achrediad y Marc TGCh.

Mae arf ar-lein y fframwaith hunan-adolygu yn dangos i chi sut i wneud cynnydd tuag at y safonau cenedlaethol a thu hwnt.

- Mae'r arf ar-lein yn cynhyrchu gweithrediadau a awgrymir, a all eich cyfeirio ynglŷn â gwella eich ysgol o safbwynt gwneud defnydd effeithiol o TGCh.
- Gallwch addasu'r gweithrediadau hyn i weddu i anghenion unigol eich ysgol.
- Gallwch gofnodi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan eich hysgol i gyrraedd at eich dyfarniad.

## Trosolwg o'r elfennau

# Elfen 1 – Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 1a Y Weledigaeth ar gyfer TGCh

Mae'r llinyn yma'n adlewyrchu'r pwysigrwydd o gael gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer TGCh.

Dylai'r weledigaeth sicrhau fod:

- yr holl staff yn berchen â'r weledigaeth ac yn ei deall
- rhanddeiliaid eraill ynghlwm wrth y weledigaeth, gan gynnwys llywodraethwyr, rhieni a grwpiau cymunedol.
- y weledigaeth yn cefnogi ac yn gwella amcanion yr ysgol yn nhermau dysgu, addysgu, rheolaeth a gweinyddiaeth
- adolygiad o'r weledigaeth yn sgil datblygiadau newydd mewn technoleg, ymarfer a pholisi cenedlaethol.

### 1b Strategaeth i gyflawni'r weledigaeth TGCh

Mae'r llinyn yma'n sicrhau fod yna strategaeth, gyda blaenoriaethau, ar gyfer gwireddu'r weledigaeth TGCh. Gwahaniaethir rhwng y cynllunio cyffredinol ac arweinyddiaeth y strategaeth a'r trosglwyddiad o ddydd i ddydd.

Dylai'r weledigaeth gynnwys y canlynol:

- Y weledigaeth yn rhan annatod o'r cynllunio ysgol gyfan
- Cymryd i ystyriaeth lefel gyfredol o ddatblygiad yr ysgol
- Adnabod pwysigrwydd cynllunio ariannol gofalus sy'n rhoi ystyriaeth i'r holl gostau perthnasol a'r effaith ar ganlyniadau
- Adnabod yr angen i gynllunio ar gyfer cynaladwyedd hir-dymor.

### 1c Y defnydd o TGCh i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadaethol

Rhoddir ystyriaeth i effeithiolrwydd o'r defnydd o systemau gwybodaeth reoli a data perfformiad yma.

Dylai arweinyddion ysgol ddefnyddio TGCh yn strategaethol i:

- wella cyfathrebu
- gynyddu effeithiolrwydd ar draws ystod o weithgareddau.

### 1d Monitro a gwerthuso

Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y strategaeth TGCh yn hanfodol i sicrhau cynnydd.

Dylai monitro a gwerthuso fod yn:

- digwydd ar draws yr ysgol
- seiliedig ar dystiolaeth
- cynnwys yr effaith ar ganlyniadau dysgu.

## Elfen 2 – Cwricwlwm

### 2a Y cwricwlwm TGCh cynlluniedig

Mae'r llinyn yma'n ystyried gweithrediad o'r cwricwlwm TGCh a gynlluniwyd [1].

Mae modd addysgu medr TGCh:

- fel pwnc ar wahan
- yng nghyd-destun pynciau eraill
- fel cyfuniad o'r ddau.

Mae'r llinyn hefyd yn ymwneud â'r cynllunio ar gyfer disgyblion i gymhwyso eu medrau TGCh ar draws pynciau ac ar gyfer y defnydd o TGCh mewn dysgu ac addysgu yn fwy cyffredinol.

### 2b Profiadau TGCh gwirioneddol y disgyblion

Mae'r llinyn yma'n ymwneud â phrofiadau'r disgyblion wrth ddefnyddio TGCh yn eu dosbarthiadau.

Mae'n rhaid i ysgolion ystyried:

- gwahaniaethau rhwng yr hyn a gynllunir ar ei gyfer a'r profiadau mewn gwirionedd
- yr ystod, ansawdd a chysondeb o brofiadau'r disgyblion.

### 2c Arweinyddiaeth ac adolygiad y cwricwlwm

Mae'r llinyn yma'n ystyried y ffordd yr arweinir y cwricwlwm, a sut y caiff ei ddatblygu a'i adolygu. Anaml iawn y bydd y cwricwlwm yn statig, ac yn arbennig yng nghyd-destun TGCh, mae'n rhaid addasu ac ymateb i:

- adnoddau cynyddol
- technolegau newydd a phecynnau meddalwedd fel mae'r rhain yn datblygu
- newid mewn ymarfer proffesiynol, fel y bydd athrawon yn deall mwy ynglŷn â sut y gall TGCh gefnogi dysgu ac addysgu.

*[1]Nid yw'r fframwaith yma'n argymell unrhyw ddull neilltuol (ond lle dysgir TGCh fel pwnc ar wahan, yn ceir y rhagdybiaeth fod medr TGCh yn cael ei gymhwyso mewn gyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm).*

# Elfen 3 – Dysgu ac Addysgu

## 3a Y cynllunio, y defnydd a'r gwerthuso gan athrawon

Mae'r llinyn yma'n ystyried sut y mae athrawon yn defnyddio TGCh yn y dosbarth i gefnogi ac i wella dysgu, addysgu a chynhwysiad. Yn yr ysgolion lle mae TGCh wedi'i sefydlu'n llwyddiannus o fewn dysgu ac addysgu, mae'r holl staff yn:

- meddu ar ddealltwriaeth glir o sut y mae TGCh yn cefnogi'r prosesau hyn
- cynllunio'n rheolaidd ar gyfer defnyddio TGCh yn eu haddysgu
- darparu profiadau ar sail gwybodaeth flaenorol o allu TGCh y disgyblion, fel bod y disgyblion yn cael eu herio gan eu defnydd o TGCh
- ymgymryd â gwerthuso beirniadol yn rheolaidd o sut y defnyddir TGCh ac yn rhannu eu barn gyda'u cydweithwyr, o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

## 3b Dysgu gyda TGCh

Mae'r llinyn yma'n adlewyrchu ar y defnydd o TGCh o safbwynt y dysgwyr.

Mae'n edrych ar:

- yr hyn y mae disgyblion yn ei ddisgwyl o'u defnydd o TGCh
- y cyfleoedd sydd ar gael i'r disgyblion i ddewis os ydynt am ddefnyddio TGCh neu beidio
- y sgiliau y maent wedi eu datblygu yn y defnydd o adnoddau digidol.

## 3c Arweinyddiaeth y dysgu ac addysgu

Yma, ystyrir y ffordd y mae arweinyddion ar lefelau gwahanol yn yr ysgol yn hybu, archwilio a datblygu'r defnydd o TGCh o fewn dysgu ac addysgu.

Mae arfer effeithiol yn sicrhau fod:

- TGCh yn cael ei arwain yn strategol
- pob arweinydd cwricwlwm neu bwnc yn gweithredu TGCh yn gyson ac yn hyrwyddo ei ddefnydd.
- peth defnydd arloesol o TGCh.

# Elfen 4 – Asesu

## 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh

Mae'r llinyn yma'n ystyried y ffordd yr asesir medr TGCh. Mae hefyd yn helpu ysgolion i ystyried os ydynt yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i reoli'r broses asesu [2].

Y ddau gyd-destun ar gyfer yr asesu yma yw:

- TGCh fel pwnc ar wahan
- y defnydd o TGCh mewn pynciau eraill.

[2] *Noder, yn y llinyn yma, fod yr asesu yn y ddau achos mai asesiad o fedr TGCh ydyw ac ni ddylid drysu gydag asesiad pwnc.*

# Elfen 5 - Datblygiad Proffesiynol

## 5a Cynllunio

Mae'r llinyn yma'n ystyried nid yn unig y prosesau a ddefnyddir gan yr ysgol i ganfod anghenion datblygiad proffesiynol unigol ac ysgol gyfan, ond hefyd y cynllunio i gwrdd â'r anghenion hynny.

Mae'n ceisio hyrwyddo:

- adolygiad cyson a systematig o sgiliau TGCh y staff
- adnabyddiaeth o anghenion unigol ac ysgol gyfan
- cysylltiadau amlwg rhwng datblygiad proffesiynol a chynllun strategol yr ysgol ar gyfer TGCh.

## 5b Gweithrediad

Mae'r llinyn yma'n adlewyrchu'r ystod ac ansawdd o'r ddarpariaeth a wneir gan yr ysgol ar gyfer datblygiad sgiliau TGCh ei staff.

Mae'n ystyried:

- sut y mae aelodau unigol o'r staff yn cael eu cefnogi
- sut mae arfer da yn cael ei rannu o fewn yr ysgol
- Ansawdd ac ystod o'r cyfleoedd datblygu
- darpariaeth unigol ac ysgol gyfan.

## 5c Adolygu

Mae'r llinyn yma'n delio â'r rheolaeth gyffredinol a gwerthusiad o ddatblygiad staff mewn TGCh.

Mae'n ceisio hyrwyddo monitro a gwerthuso systematig sy'n arwain at:

- ddadansoddiad o ansawdd ac effaith y ddarpariaeth
- gynllunio ar sail canlyniadau.

# Elfen 6 - Estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu

## 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae'r llinyn yma'n adlewyrchu ar lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yr holl staff o'r cyfleoedd ar gyfer ymestyn dysgu gyda TGCh y tu hwnt i'r ysgol [3]. Mae hyn yn cynnwys mynediad y disgyblion y tu allan i'r ysgol a'r ffordd y mae rhieni a theuluoedd yn gwneud defnydd o TGCh.

Dylai ysgolion:

- fod yn ymwybodol o'r materion sydd ynghlwm wrth ddysgu ymestynedig
- ymestyn eu darpariaeth y tu hwnt i gysyniadau traddodiadol o addysg.

## 6b Cynllunio a gweithredu

Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn cynllunio ac yn gweithredu defnydd effeithiol o TGCh i gefnogi ei pholisi ar ymestyn cyfleoedd ar gyfer dysgu yn bwysig yma.

Dylai arweinyddion ystyried:

- sut i droi polisi i arfer
- effaith TGCh ar ymestyn cyfleoedd dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion.

[3] *Er nad yw pob ysgol yn gallu darparu ystod lawn o gyfleoedd ymestynnol ar gyfer dysgu, mae disgwyl iddynt mewn rhyw ffordd i ymestyn eu darpariaeth y tu hwnt i gysyniad traddodiadol yr ysgol. Dylai pob ysgol fod yn ymwybodol o'r materion, hyd yn oed os yw'r gweithredu, i rai ohonynt, ar gam cynnar mewn datblygiad*

# Elfen 7 - Adnoddau

## 7a Darpariaeth

Mae'r llinyn yma'n ystyried y ddarpariaeth, rheolaeth a chynhaliaeth adnoddau TGCh a ddefnyddir yn yr ysgol.

Mae'n canolbwyntio ar:

- yr amgylchedd ffisegol ar gyfer TGCh
- effaith yr amgylchedd ffisegol ar ansawdd y dysgu a'r addysgu
- digonedd yr adnoddau TGCh.

## 7b Mynediad

Yma, ystyrir pa mor rhwydd y mae athrawon a disgyblion yn gallu cael mynediad at adnoddau TGCh ac ystod y lleoliadau sy'n cynnig mynediad iddynt.

Mae'n cynnwys:

- mynediad i'r rhyngrwyd mewn perthynas ag anghenion yr ysgol
- effeithiolrwydd y gynhaliaeth dechnegol
- yr angen i gadw aflonyddwch ar y dysgu a'r addysgu i'r lefel isaf bosibl.

## 7c Rheolaeth

Mae'r llinyn yma'n ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn ymestyn ac yn amnewid neu ddisodli ei hadnoddau TGCh trwy ddadansoddiad effeithiol o anghenion cwricwlwm a gweinyddaeth.

Mae'n ceisio hybu:

- cynllunio ar gyfer y dyfodol
- mabwysiadu gweithdrefnau arfer da mewn meddiannu.

# Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

## 8a Cynnydd disgyblion mewn gallu TGCh

Mae'r llinyn yma'n ystyried:

- i ba raddau y mae pob grŵp o ddisgyblion ar draws yr holl flynyddoedd yn gwneud cynnydd yn eu medr TGCh
- pa mor annibynnol y mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medr TGCh.

## 8b Cynnydd ehangach disgyblion

Mae'r llinyn yma'n ystyried:

- y cynnydd ehangach y mae disgyblion yn ei wneud mewn gwella dysgu trwy ystod eang o brofiadau TGCh ar draws y cwricwlwm.
- i ba raddau y mae TGCh yn arf ar gyfer datblygiad sgiliau dysgu ehangach y disgyblion, megis creadigedd, ymchwiliad a datrys problemau
- sefydliad y sgiliau hyn o fewn y cynllunio'r cwricwlwm a'r arfer ar gyfer yr holl ddisgyblion.

## 8c Agweddau ac ymddygiad

Mae'r llinyn yma'n ystyried:

- y ffordd y mae defnydd cyson o TGCh gan y disgyblion yn gwella eu hagwedd tuag at ddysgu yn gyffredinol, yn ogystal â'u cymhelliant a'u hymddygiad
- sut y mae disgyblion yn dangos diddordeb, brwdfrydedd a chwilfrydedd, a sut y mae hyn yn eu gyrru i archwilio potensial TGCh o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

## Beth nesaf?

Mae angen i chi benderfynu:

**Pwy sy'n mynd i arwain yr adolygiad?**

- Y pennaeth?
- Uwch-arweinydd?

**Faint o amser a glustnodwn ar ei gyfer?**

- Pryd ddylen ni ddechrau?
- Faint o amser a fydd yn ei gymryd?
- A ydyn ni'n ei wneud fel rhan o'n DPP?
- Allwn ni ei gysylltu â gweithgareddau eraill?

**Pwy fydd yn cymryd rhan?**

- Yr holl staff?
- Tîm strategol?
- Tîm gwahanol ar gyfer pob elfen?

**Pa elfen wnawn ni i ddechrau?**

- Arweinyddiaeth a Rheolaeth?
- Dysgu ac Addysgu?
- Adnoddau?
- Un o'r lleill?

## Dathlu llwyddiant

Mae'r fframwaith hunan-adolygu yn galluogi ysgolion i adnabod ac i ddathlu eu llwyddiannau.

Pan fod ysgol yn teimlo'n gadarn yn ei dyfarniad ei bod wedi cyrraedd y safon a gytunwyd yn genedlaethol ym mhob agwedd o'r fframwaith, gall ddewis i wneud cais am y Marc TGCh.

I ennill y Marc TGCh gwna'r ysgol gais am ymweliad gan asesydd achrededig, a fydd yn dilysu barnau hunan werthusiad yr ysgol.

Mae'r Gwobrau Rhagoriaeth TGCh yn cynnig cydnabyddoiaeth bellach ar gyfer ysgolion sy'n arddangos tystiolaeth o arfer ragoriaethol yn uwch a thu hwnt i lefelau y Marc TGCh.

## Pwy ddatblygodd y fframwaith hunan-adolygu?

Maelr fframwaith hunan-adolygu yn ganlyniad o gyd-weithrediad y sefydliadau cenedlaethol canlynol dan arweiniad Becta:

- DfES
- Naace
- National College for School Leadership (NCSL)
- The National Strategies
- Ofsted
- Qualifications and Curriculum Authority (QCA)
- Specialist Schools and Academies Trust (SSAT)
- Training and Development Agency (TDA)



## Sut i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y fframwaith hunan-adolygu

- Fframwaith hunan-adolygu (http://becta.org.uk/schools/selfreview)
- Marc TGCh (http://becta.org.uk/schools/ictmark)
- Gwobrau Rhagoriaeth TGCh (http://www.becta.org.uk/awards)
- Ffyrdd o defnyddio'r fframwaith hunan-adolygu – Cyfarwyddyd ar gyfer arweinyddion (http://www.becta.org.uk/publications)